



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Sirol Cegidfa

**Cegidfa
Y Trallwng
Powys
SY21 9ND**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Cegidfa

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Sirol Cegidfa
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Powys
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	179
Disgyblion o oed ysgol statudol	129
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	20
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%)	8.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%)	8.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	3.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/10/2023
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	19/05/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	13/11/2023

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fysgolleol.llyw.cymru

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Cegidfa yn ysgol hapus lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal. Mae staff yn diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda. Maent yn delio â phryderon disgyblion yn ystyriol, yn briodol ac mewn modd amserol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol fel dysgwyr ac yn datblygu i fod yn unigolion hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau cyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol da. Maent yn ymgynefino â bywyd ysgol yn gyflym ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gilydd ac oedolion. Maent yn dangos balchder diffuant yn eu gwaith ac yn garedig a gofalgwr iawn at ei gilydd. Mae disgyblion hŷn yn arbennig yn gofalu am y disgyblion iau ac yn cynnig cyfeillgarwch a chefnogaeth iddynt. O roi'r cyfle iddynt, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ag aeddfedrwydd a diwydrwydd.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar iawn yn dechrau sefydlu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol. Lles disgyblion sydd wrth wraidd y weledigaeth hon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon da i gyd-destun lleol yr ysgol a'i chymuned nac yn rhoi sylw priodol i ddiddordebau'r disgyblion wrth iddynt gynllunio'u cwricwlwm. Nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Nid yw athrawon bob amser yn darparu'r lefel gywir o her i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu potensial.

Nid yw dull arweinwyr o fonitro darpariaeth yr ysgol yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion ac nid yw llywodraethwyr yn cymryd rôl ddigon gweithgar yn y broses fonitro. Er bod arweinwyr yn nodi meysydd addas i'w gwella yng ngwaith yr ysgol, nid yw eu camau gweithredu bob amser yn arwain at welliannau digonol mewn deilliannau ar gyfer disgyblion.

Argymhellion

- A1 Cryfhau'r trefniadau i fonitro defnydd disgyblion o ofodau cymunedol a rennir
- A2 Sicrhau bod yr holl arweinwyr, yn cynnwys y corff llywodraethol, yn monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu yn drylwyr i sicrhau gwelliant
- A3 Mynd i'r afael â'r anghysondebau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gyda ffocws penodol ar sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu herio'n effeithiol
- A4 Datblygu cwricwlwm yr ysgol i gynnwys profiadau dysgu perthnasol a dilys sy'n diwallu anghenion dysgwyr

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

Prif werthusiad

Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol ar gam datblygu yn eu medrau cyfathrebu, rhifedd a chymdeithasol sy'n ddisgwylidig ar gyfer eu hoedran ac yn gwneud cynnydd addas wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd addas yn unol â'u targedau unigol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar oedolion. Maent yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn effeithiol. Er enghraifft, pan fyddant yn ymgymryd â rôl goruchwylwr dosbarth, mae disgyblion iau yn gwybod i chwilio yn yr ystafell ddosbarth am eitemau 'rhyfedd' a fydd yn eu helpu i ddatrys dirgelwch yr ôl-troed enfawr. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn siarad â hyder, ac maent yn huawdl a brwdfrydig wrth iddynt ryngweithio ag oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr.

Ar draws yr ysgol, mae datblygiad medrau Cymraeg disgyblion yn amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg. Fodd bynnag, wrth iddynt symud trwy'r ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg yn briodol.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn adnabod seiniau llythrennau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarllen geiriau syml. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen â hyder a mwynhad. Maent yn dewis o blith ystod eang o ddeunydd ffuglen a ffeithiol i ddatblygu eu darllen er mwynhad ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl, gan ddefnyddio mynegiant, goslef a chyflymdra yn effeithiol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o atalnodi yn eu darllen, er enghraifft wrth ymateb i ddyfynodau a chomas.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion iau yn dod o hyd i eiriau o fanciau geiriau, ac yn eu copïo, i helpu ffurfio brawddegau syml, ac maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn caffael dealltwriaeth gadarn o ystod addas o genres ysgrifennu. Er enghraifft, fel rhan o'u dysgu am oes Victoria, maent yn ysgrifennu llythyrau ffurfiol at Frenhines Victoria i fynegi eu barn ar lafur plant. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud yn eu medrau ysgrifennu wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau mathemategol. Mae disgyblion iau yn rhoi amcangyfrifon a rhagfynegiadau synhwyrol, er enghraifft pan fyddant yn amcangyfrif faint o ffa jeli sydd eu hangen i fesur llaw'r cawr. Mae llawer o

ddisgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio terminoleg fathemategol fel amcangyfrif tra'n mesur cynhwysion i bobî byns. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn adio a thynnu rhifau i 1,000 ac yn cyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau syml. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cyfrifiadau'n ymwneud â lluosî a rhannu yn effeithiol. Maent yn adnabod nodweddion rhifau fel rhifau sgwâr a rhifau cysefin. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n cymhwyso'u medrau rhifedd ym meysydd eraill y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd a'u dealltwriaeth ar draws ystod addas o brofiadau yn dda. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hÿn yn trosi mesuriadau'n hyderus i ddarlunio llong Duduraidd i raddfa.

Mae datblygiad medrau digidol disgyblion yn amrywiol, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod briodol o fedrau digidol ac yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cronfeydd data, ac yn manteisio ar adnoddau ar-lein i ddatblygu eu gwaith celf gan ddefnyddio persbectif. Fodd bynnag, mae medrau TGCh yn gyfyngedig, ac mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau mewn codio a chasglu gwybodaeth o gronfeydd data yn faes i'w ddatblygu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau corfforol. Mae disgyblion iau yn symud o gwmpas yr ardal dan do ac awyr agored yn hyderus. Maent yn dangos cydsymud da wrth drin offer a gwrthrychau bach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gan gynnwys paratoi ar gyfer digwyddiadau chwaraeon gydag ysgolion partner, yn hyderus ac yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau bywyd pwysig trwy gymryd rhan mewn gwersi nofio ym mhob blwyddyn ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion hÿn yn datblygu medrau meddwl a medrau datrys problemau addas trwy eu gwersi gwyddoniaeth. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn cynllunio ymchwiliad ac yn ystyried beth sydd ei angen i wneud prawf teg. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn dangos meddwl clir wrth gynllunio'u gwaith ac yn gwneud awgrymiadau synhwyrol i wella'u harbrofion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a medrau datrys problemau yn ddigon da.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae disgyblion hÿn yn datblygu ystod o dechnegau arlunio fel dotwaith a chroeslinelliad, tra'n astudio'r artist Henry Moore.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol. Maent yn falch o'u hysgol ac yn mwynhau perthnasoedd cadarnhaol â staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cael cymorth da ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd ganddynt broblem, ac yn hyderus y bydd staff yn delio'n gyflym ac yn effeithiol â'u pryderon.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn trin ei gilydd â gofal a pharch. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd rheolau a chosbau a sut mae'r rhain yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn symud trwy'r ysgol yn dawel ac yn bwyllog ac yn rheoli newidiadau o fewn y diwrnod ysgol yn dda iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch tuag at oedolion ac yn siarad yn hyderus ac yn gwrtais ag ymwelwyr. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd yn eu dysgu a'u chwarae. Er enghraifft, wrth drafod sut i wneud bara, mae disgyblion iau yn anghytuno'n barchus â sut y dylid gwneud bara, gan gyfiawnhau eu barn yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau da yn gysylltiedig â bwyta ac yfed. Maent yn bwyta byrbryd ffrwythau neu lysiau bob dydd a gall pob un o'r disgyblion gael at ddŵr yfed trwy gydol y dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwyta pryd iach wedi'i goginio amser cinio. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bod yn gorfforol egnïol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel cerdded a nofio bob dydd, ac mae llawer ohonynt yn cynrychioli timau'r ysgol, fel pêl-droed a pêl-rwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn cymryd eu cyfrifoldebau arwain o ddifri ac yn cyflawni eu rolau'n hyderus. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn rolau fel y Pwyllgor Eco, Iechyd a Lles, Dewiniaid Digidol a'r Sgwad Diogelwch. Mae'r grwpiau a'r pwyllgorau hyn yn cefnogi ethos yr ysgol, yn arwain mentrau ar draws yr ysgol ac yn creu cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned. Er enghraifft, yn ddiweddar, enillodd y Pwyllgor Eco hadau adar yn rhodd gan fusnes lleol, a defnyddion nhw'r hadau i lenwi eu blychau bwydo adar eu hunain i fwydo'r adar dros y gaeaf.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymgysylltu'n dda yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus, sy'n cwblhau eu dysgu â balchder a gofal. O roi cyfrifoldeb iddynt am eu dysgu, maent yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth ac yn gwneud eu gorau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynd ati i wneud eu tasgau yn gyflym ac mae llawer o ddysgwyr yn dangos canolbwyntio cynaledig i gwblhau tasgau. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn dangos dyfalbarhad wrth gasglu ffyn i adeiladu lloches yn yr ardal awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen adborth ysgrifenedig eu hathrawon ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn briodol pan fyddant yn cael eu sbarduno, er enghraifft trwy wella brawddeg. Mae disgyblion hŷn yn asesu tasgau a gwblhawyd yn gywir yn erbyn meini prawf llwyddiant cytunedig ac yn nodi cryfderau a beth mae angen iddyn nhw neu'u cyfoedion ei wneud i wella. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n defnyddio'r wybodaeth hon i wella ansawdd eu gwaith, ac ar y cyfan, nid yw disgyblion yn deall yn glir beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn dda iawn, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae bron pob un ohonynt yn cyrraedd yn hapus ac yn brydlon bob bore.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gynnes a chefnogol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae llawer o athrawon yn esbonio tasgau'n glir i ddisgyblion ac yn eu helpu i ddeall beth i'w wneud. Maent yn rhannu disgwyliadau dysgu ar y dechrau, a phan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn oedi'n rheolaidd trwy gydol y wers i wirio dealltwriaeth disgyblion a sefydlu beth mae angen iddynt ei wneud nesaf. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, wrth ddefnyddio strategaethau llusgi i ddeall cod, mae disgyblion yn myfrio'n aeddfed ar eu cynnydd ac yn awgrymu gwelliannau ynghylch sut i fynd i'r afael â'r dasg yn wahanol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn defnyddio ystod addas o arddulliau holi i annog disgyblion i ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Mae llawer ohonynt yn cynllunio tasgau addas sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau'n heriol ac mae athrawon yn dibynnu gormod ar daflenni gwaith. O ganlyniad, mae cyfleoedd disgyblion i ddatblygu medrau meddwl beirniadol a chreadigol wedi'u cyfyngu ac nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod addas o strategaethau asesu i nodi'n gywir y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol yn eu dysgu. Mae athrawon a staff cymorth yn monitro'u dysgu'n fanwl, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol.

Mae gan yr ysgol bolisi marcio ac adborth addas ar waith. Fodd bynnag, ni chaiff hwn ei ddefnyddio'n gyson ar draws yr ysgol i helpu pob un o'r disgyblion i wella'u gwaith. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cynnydd digonol. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac addysgiadol. Maent yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a medrau personol a chymdeithasol eu plentyn, ynghyd â thargedau ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'n ddyddiau cynnar o ran cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol wedi seilio'i chwricwlwm ar y chwe maes dysgu gan ddefnyddio themâu troswaol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion partner i ddatblygu cwricwlwm perthnasol ac ystyrion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi rhoi ystyriaeth ddigon da i sut y bydd yn datblygu ei chwricwlwm ei hun yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn lleiafrif o ddsbarthiadau, rhoddir cyfle i ddisgyblion gyfrannu mewnbyn i'w dysgu. Nid yw themâu ysgol gyfan y mae'r ysgol yn dewis eu defnyddio yn cyd-fynd yn ddigon da ag anghenion a diddordebau'r disgyblion, yr ysgol na'i bro, ac nid ydynt yn darparu cyfleoedd digon da i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau at ddibenion bywyd go iawn. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud y cysylltiadau perthnasol rhwng beth maent yn ei ddysgu, eu bywydau eu hunain a'u cymuned.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, mae staff yn datblygu diwylliant darllen cadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau'r cyfle i ddatblygu eu medrau darllen trwy ystod o ddeunydd darllen yn yr ysgol ac yn y cartref. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu

medrau mathemategol disgyblion, ac o ganlyniad, mae cynnydd a safonau'n gwella. Mae llawer o athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso ystod o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth gyfrifo faint o flynyddoedd yn ôl yr oedd digwyddiadau yn ystod oes Victoria, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau tynnu yn effeithiol. Mae cynllunio ar gyfer cynnydd mewn medrau digidol yn llai datblygedig, ac mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau holi a meddwl ar draws meysydd dysgu'r cwricwlwm yn gyfyngedig. Hefyd, mae athrawon yn anghyson o ran cyflwyno gwersi Cymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd a mynych i siarad Cymraeg ac ymateb i'r athro. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddsbarthiadau, ni chaiff gweithgareddau Cymraeg cynlluniedig eu cyflwyno ac mae athrawon yn defnyddio maint cyfyngedig iawn o Gymraeg yn eu gwersi.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynnes iawn sy'n cefnogi datblygiad emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae staff yn modelu rhyngweithio parchus yn gyson ac yn annog disgyblion i gynorthwyo'i gilydd ar hyd bywyd bob dydd yr ysgol. Mae diwrnodau blaenoriaeth uchel, fel 'diwrnod sanau od', yn helpu amlygu i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud os oes angen cymorth arnynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus ynglŷn â ble i fynd os oes angen cymorth arnynt. Pan fydd angen cymorth ar ddisgyblion unigol i ddiwallu eu hanghenion emosiynol, mae'r ysgol yn darparu sesiynau wedi'u cynllunio'n dda fel therapi chwarae gydag aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant penodol.

Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithio'n systematig i sicrhau bod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi'n gyflym. Mae athrawon yn gosod targedau priodol ar gyfer disgyblion ac yn defnyddio'r rhain i lywio'r ddarpariaeth. Mae llawer o staff cymorth yn cynorthwyo unigolion a grwpiau yn dda. Maent yn darparu cyfle defnyddiol i gymryd rhan mewn rhaglenni, fel sesiynau therapi unigol, gan ddefnyddio teganau adeiladu a grwpiau cymorth ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am fhoneg. Mae cyfarfodydd adolygu rheolaidd yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau unigol a phriodoldeb y ddarpariaeth yn briodol. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ceir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol yn ystod y diwrnod ysgol, fel cerdded, dawnsio, sesiynau gemau a digwyddiadau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad corfforol cyffredinol disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod addas o weithgareddau allgyrsiol i gefnogi'r cwricwlwm a datblygu hunanhyder, creadigrwydd a medrau perfformio disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yng nghystadlaethau dawnsio lleol yr Urdd a pherfformiadau ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn datblygu creadigrwydd disgyblion yn briodol trwy ei chwricwlwm a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol. Er enghraifft, mae bîtbocsiwr ac artist dolen fyw yn ymweld â'r ysgol i rannu ei fedrau ac yn annog disgyblion i arbrofi â'r technegau llais y mae'n eu defnyddio.

Mae'r ysgol yn dathlu ei threftadaeth a'i diwylliant Cymreig yn dda. Mae'n hyrwyddo manteision siarad Cymraeg ar draws y gymuned trwy greu taflen a gyhoeddwyd fel rhan o'r bwletin lleol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth Cymru a diwylliannau eraill. Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o werthoedd a'u hawliau nhw fel plant. Mae gweithredoedd addoli ar y cyd dyddiol yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn fuddiol, gan ddefnyddio dulliau cyson. Eir i'r afael ag unrhyw faterion â sensitifrwydd a gofal. Yn gyffredinol, mae diwylliant diogelu sy'n briodol o gryf o fewn yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, daeth y tîm â materion yn ymwneud â defnyddio gofodau cymunedol a rennir at sylw'r ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mewn cyfnod amser byr iawn, mae'r pennaeth yn dechrau ennill dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Trwy weithio gyda'r dirprwy dros dro, mae hi wedi nodi blaenoriaethau gwella priodol ar gyfer yr ysgol, ac mae arweinwyr a staff yn dechrau mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi nodi bod angen gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol.

Mae gan bron bob un o'r staff addysgu rolau arweinyddiaeth neilltuedig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Trwy ymgysylltu cadarnhaol â dysgu proffesiynol, maent yn dechrau gyrru gwelliant yr ysgol ymlaen. Fodd bynnag, nid yw datblygu strategaethau addysgu a dysgu i adlewyrchu athroniaeth y Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac fe gaiff effaith negyddol ar ddarpariaeth ystafell ddosbarth. Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu perthnasol sy'n galluogi disgyblion i gysylltu eu dysgu â'r byd go iawn, ac nid yw llawer o wersi'n darparu digon o her i alluogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Ceir diwylliant cryf o gydweithio a gwaith tîm ar draws yr ysgol. Mae staff yn gefnogol iawn i'w gilydd, ac o ganlyniad, mae lles staff yn gryfder.

Mae arweinwyr wedi datblygu amserlen briodol i'w galluogi i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae ystod y gweithgarwch yn cynnwys arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. O hyn, mae arweinwyr yn dechrau nodi'n gywir llawer o'r meysydd lle mae angen i'r ysgol wneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid oes digon o weithgareddau monitro yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar wella deilliannau disgyblion a'r cynnydd a wnânt â'u dysgu. Yn ychwanegol, nid ydynt yn monitro cynnydd tuag at welliannau yn ddigon trylwyr i ysgogi gwelliannau ar draws yr ysgol. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion eu herio'n ddigon da ac nid ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i waith yr ysgol. Er bod gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth eang o flaenoriaethau gwella'r ysgol, nid ydynt yn cymryd rhan yn ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol, ac maent yn dibynnu'n helaeth ar y wybodaeth a gyflwynir gan arweinwyr yr ysgol i sicrhau ansawdd. O ganlyniad, nid oes gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddiwyd. Maent yn defnyddio cyllid ychwanegol fel y grant datblygu disgyblion yn dda, er enghraifft i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i ymgymryd â phrofiadau dysgu yn yr awyr agored ac i ariannu gwersi cerddoriaeth ar gyfer disgyblion targedig.

Mae'r ysgol yn cyfleu gwybodaeth ddefnyddiol am gyfryngau cymdeithasol gyda rhieni yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw barn rhieni a rhanddeiliaid eraill yn effeithio'n ddigonol ar ddatblygiad yr ysgol. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, er nad yw cynnydd yr ysgol tuag at y Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024